Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
Chief Executive,
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

DYDD IAU, 4 IONAWR 2018

AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **CYNGOR SIR** A GYNHELIR YN **SIAMBR, NEUADD Y SIR** AM **10.00 AM, DYDD MERCHER, 10FED IONAWR, 2018** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

Mark James DYB

PRIF WEITHREDWR

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

Swyddog Democrataidd:	**Kevin Thomas**
Ffôn (llinell uniongyrchol):	**01267 224027**
E-bost:	**kjthomas@sirgar.gov.uk**
Cyf:	**AD016-001**

A G E N D A

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.

4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

5. CYFLWYNO DEISEB

"Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar Gyngor Sir Caerfyrddin i gyflawni ei ddyletswydd hollbwysig i ddiogelu ac amddiffyn plant drwy symud yr elusen Chooselife i leoliad arall addas. Mae lleoliad presennol Chooselife, sef yn union gyfagos i'r ysgol babanod ac iau newydd yn Heol Copperworks, yn annerbyniol ac yn beryglus gan y bydd cannoedd o blant yn cerdded i'r ysgol ar hyd Heol Copperworks bob dydd. Mae agosrwydd y ddau gyfleuster yn anghydnaws ac mae'n rhaid i un ohonynt symud. Oherwydd y buddsoddiad sydd eisoes wedi'i wneud gan y Cyngor Sir, rhaid mai Chooselife yw'r un sy'n symud."

6. CWESTIYNAU GAN AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

7. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-

7 .1 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD GLYNOG DAVIES

"EITHRIO'R SAWL SY'N GADAEL GOFAL RHAG Y DRETH GYNGOR

Mae'r sawl sy'n gadael gofal y gofalwyd amdanynt gan yr Awdurdod Lleol ymysg y grwpiau mwyaf agored i niwed yn ein cymuned. Fel rhan o'n rôl rhianta corfforaethol, credwn y dylai Cyngor Sir Caerfyrddin geisio cadw pobl ifanc yn ddiogel a gwella eu cyfleoedd bywyd. Mae gennym ddyletswydd i'r sawl sy'n gadael gofal.

Rydym yn credu bod cyfrifoldeb arnom i sicrhau, pan fydd pobl ifanc yn symud o ofal i fywyd fel oedolyn, fod y broses mor esmwyth â phosibl ac i wneud popeth a allwn i liniaru'r newidiadau sydd yn aml yn arwain at broblemau dyled i'r sawl sy'n gadael gofal wrth iddynt ddechrau rheoli eu harian eu hunain.

Rydym yn cynnig y rhybudd o gynnig canlynol:

Dylai pawb sy'n gadael gofal gael eu heithrio rhag y dreth gyngor hyd at 21 oed (gyda'r dewis o gynyddu'r oedran i 25 mewn amgylchiadau eithriadol)".

8.	**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU**	5 - 14
9.	**CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR, 2018/19**	15 - 24
10.	**YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERERION CANLYNOL:**	
	10 .1 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GAERFYRDDIN 2006-2021 - ADRODDIAD ADOLYGU (Y Bwrdd Gweithredol 18fed Rhagfyr 2017)	25 - 152
	10 .2 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GAERFYRDDIN DIWYGIEDIG 2018 - 2033 CYTUNDEB CYFLENWI DRAFFT YNGHYD Â'R FETHODOLEG ASESU SAFLEOEDD DRAFFT (Y Bwrdd Gweithredol 18fed Rhagfyr, 2017	153 - 218
11.	**DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR 18FED RHAGFYR, 2017.**	219 - 230
12.	**YSTYRIED ARGYMHELLION Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD O RAN Y MATER CANLYNOL:**	
	12 .1 AROLWG - AMSERAU CYFARFODYDD Y CYNGOR (PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 29/11/2017)	231 - 244
13.	**COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)**	
	13 .1 PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD - 17EG TACHWEDD, 2017	
	13 .2 PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - 29AIN TACHWEDD, 2017	
	13 .3 PWYLLGOR SAFONAU - 6ED RHAGFYR, 2017	